# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, CARTREFI AC ADFYWIO

## DYDD IAU, 29 MEHEFIN 2023

**PRESENNOL** Cynghorydd D.M. Cundy (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| B. Davies | L. Davies | M. Palfreman | H.B. Shepardson |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| K.V. Broom | B.W. Jones | W.R.A. Davies | T. Davies |
| R.E. Evans | H.L. Davies | J.K. Howell | |

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
Y Cynghorydd L.D. Evans - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gartrefi

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
I. Jones, Pennaeth Hamdden
J. Morgan, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd
H. Morgan, Rhelowr Datblygu Economaidd
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
A. Bowen, Arweinydd Buddsodi yn ein Tai
R. Parkinson, Arweinydd Tim - Cygnor ynghylch Tai
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

**Siam,br, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 10.35 yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D. Owen, R. Sparks a M. Thomas.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA**

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol na chwip waharddedig.

**3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol na chwip waharddedig.

4. **ADRODDIAD DIWEDDARU - DYRANNU TAI CYMDEITHASOL BRYS YNGHYLCH RHOI'R POLISI DYRANNU NEWYDD AR WAITH (MONITRO)**

Yn unol â'r penderfyniad a wnaed yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2023, cafodd y Pwyllgor adroddiad monitro ar effeithiolrwydd y Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys newydd a luniwyd gan ei Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Nodwyd bod yr adroddiad yn cynnwys data ar gyfer y cyfnod blaenorol yn ymwneud â'r canlynol:-

1. Cyfran yr eiddo a barwyd yn uniongyrchol a'r rhai a hysbysebwyd,
2. Band os yw cleientiaid wedi'u paru yn uniongyrchol,
3. Nifer yr eiddo a barwyd yn uniongyrchol ac a hysbysebwyd gan bob ardal gymunedol, math o eiddo a landlord,
4. Cyfran yr achosion o baru uniongyrchol a oedd yn llwyddiannus,
5. Nifer yr achosion o baru uniongyrchol lle mae'r cleient yn gofyn am adolygiad o'r dyraniad, a chanlyniad yr adolygiadau hynny,
6. Nifer yr achosion o baru uniongyrchol lle mae'r cleientiaid yn gwrthod y dyraniad ond nid yw'n gofyn am adolygiad.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch pryd y byddai'r cyfnod ymgynghori ffurfiol yn dechrau ynghylch cyflwyno Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol newydd, atgoffwyd y Pwyllgor bod y Cabinet wedi cytuno y byddai'r polisi brys presennol ar waith am gyfnod o 18 mis ac y gallai'r ymgynghoriad ddechrau ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwnnw. Dywedodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd y byddai'n cynnwys amserlen yn yr adroddiad monitro nesaf ynghylch cyflwyno'r polisi newydd a dechrau'r cyfnod ymgynghori.
- Cyfeiriwyd at graff 2 yn yr adroddiad a oedd yn dangos nifer yr eiddo a barwyd yn uniongyrchol a'r rhai a hysbysebwyd ar Canfod Cartref. Cadarnhawyd bod nifer yr eiddo a hysbysebwyd wedi lleihau ers mabwysiadu'r polisi dyrannu brys ac y byddai hyn yn parhau i leihau wrth i nifer yr eiddo a barwyd yn uniongyrchol gynyddu, a bod y rhai a barwyd yn cael eu dyrannu i'r bobl sydd â'r angen mwyaf ac i'r rhai sydd â chysylltiad lleol. Dim ond os nad oedd modd ei baru'n uniongyrchol neu os nad oedd yn addas ar gyfer anghenion lleol y byddai eiddo yn cael ei hysbysebu bellach.
- O ran cwestiwn ynghylch Graff 6, a'r cynnydd yn nifer yr achosion o baru anaddas, dywedwyd wrth y Pwyllgor y gellid priodoli hyn i nifer o ffactorau, yn bennaf i'r ffaith nad yw tenantiaid yn rhoi gwybod i'r Cyngor am newid yn eu hamgylchiadau personol. Fodd bynnag, o dan y polisi brys newydd, byddai'n rhaid i bobl ar y gofrestr tai ailgofrestru yn rheolaidd i ddiweddaru eu hanghenion/gofynion.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad monitro.**

5. **ARFARNIADAU O ARDALOEDD CADWRAETH - DIWEDDARIAD**

Atgoffwyd y Pwyllgor ei fod wedi ystyried adroddiad ar ehangu 10 Ardal Gadwraeth yn Sir Gaerfyrddin yn ei gyfarfod ar 5 Ebrill 2023 (gweler cofnod 4) a'i fod wedi penderfynu cysylltu â Llywodraeth Cymru ar fater cyfyngu ar osod paneli

haul ar flaen toeau mewn Ardaloedd Cadwraeth. Yn dilyn hynny, cynhaliwyd cyfarfod ar 15 Mehefin rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio â thîm Treftadaeth Adeiledig yr Awdurdod Lleol, Rhodri Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd, y Cynghorydd Aled Vaughan Owen, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd, a'r Cynghorydd Russel Sparkes i drafod y materion uchod a sut y gellid sicrhau bod hen stoc dai yn cael ei haddasu'n well i helpu'r Cyngor i gyrraedd ei dargedau carbon sero net, a oedd yn cynnwys gosod paneli haul ar adeiladau gwarchodedig.

Yn dilyn y drafodaeth honno, cynigiwyd nad yw'r Cyngor yn cysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch y mater hwn bellach, a hynny'n groes i argymhelliad cynharach y Pwyllgor, ond y gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd edrych ar fater ehangach effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni mewn perthynas â stoc hanesyddol y sir.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nad yw'r Cyngor yn cysylltu â Llywodraeth Cymru hwn bellach (fel y penderfynwyd yng nghofnod 4 cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 5 Ebrill 2023) ond y gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd edrych ar fater ehangach effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni mewn perthynas â stoc hanesyddol y sir.**

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2022/23

Cafodd y Pwyllgor ei Adroddiad Blynyddol ar y gwaith a gyflawnwyd yn ystod blwyddyn y cyngor 2022/23. Nodwyd bod yr adroddiad wedi'i baratoi'n unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor a'i fod yn rhoi trosolwg o'r rhaglen waith a materion allweddol dan sylw, gan gynnwys hefyd unrhyw faterion a gyfeiriwyd at neu gan y Cabinet, adolygiadau Gorchwyl a Gorffen a sesiynau datblygu.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at bwynt 2.14 yn yr adroddiad ynghylch darparu cynnig addysg awyr agored amgen ar gyfer Sir Gaerfyrddin a gofynnwyd am eglurhad ynghylch dyfodol y cyfleuster preswyl awyr agored presennol ym Mhentywyn.

  Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Hamdden y Pwyllgor, fel y nodwyd yn yr adroddiad, yr ymgynghorwyd â'r Pwyllgor ynghylch y cynigion yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2022 a oedd yn cynnwys cyfeiriad at gyflwr y cyfleuster presennol ym Mhentywyn ac at gost bosibl gwaith adnewyddu. Er bod yr angen am gyfleuster preswyl o'r fath yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi, byddai angen ystyried a oedd y cyfleuster yn y lle iawn. Yn unol â hynny, roedd adroddiad yn cael ei gwblhau ynghylch dyfodol y cynnig addysg awyr agored yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys cyfleuster Pentywyn, i'r Cabinet ei ystyried ym mis Medi.

  O ystyried yr uchod, awgrymwyd y dylid cyflwyno'r adroddiad ynghylch y cynnig addysg awyr agored i'r Pwyllgor cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet, a chymeradwywyd yr awgrym hwnnw.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 7. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Cafodd y Pwyllgor restr o'r eitemau a fyddai'n cael eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 28 Medi 2023.

**PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 28 Medi 2023.**

## 8. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 15 MAI 2023

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 15 Mai 2023 yn gofnod cywir.**

________________________ ____________________

**CHAIR** **DATE**